
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend
Public Services Board

**Adroddiad Blynyddol**

# 2021-22

## Asesiad Llesiant Cwm Taf Morgannwg

Bu BGC Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf yn cydweithio ar asesiad llesiant yn ardal Cwm Taf Morgannwg.



Fe wnaeth **508** o bobl ein cynorthwyo i ddeall beth mae llesiant yn ei olygu iddynt.

Gweithiodd **64** o sefydliadau gyda'i gilydd i ymgysylltu ag ystod mor amrywiol â phosibl o bobl.

Rydym wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn, crynodebau ac adroddiadau ar yr ymgysylltu a'r ymgynghori sydd wedi bod o gymorth inni ddeall yr hyn mae llesiant yn ei olygu i bobl leol.

Mae'r adroddiadau hyn a rhagor o wybodaeth am y BGC wedi ei gyhoeddi yma.

Roedd **100** diwrnod o ymgysylltu yn cynnwys 3 hacathon yn cynhyrchu cerddoriaeth, celf a barddoniaeth i fynegi gwahanol brofiadau o les.

Bu **9** o bobl ifanc yn gweithio gyda ni dros dair sesiwn i ddweud wrthym am y dyfodol y mae arnynt eisiau ei weld.

Helpodd **44** o swyddogion data a gwybodaeth i ddod ag ystod eang o wybodaeth leol at ei gilydd ynghyd ag adroddiadau data a gyhoeddwyd yn genedlaethol.

Ceir **7** taflen gryno yn disgrifio'r negeseuon allweddol o'r asesiad.

Yn gyffredinol, roedd dros **79%** o bobl yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r negeseuon allweddol o'r asesiad llesiant.

Bydd y BGC yn dysgu oddi wrth ganfyddiadau'r Asesiad Llesiant a'n gweithgaredd presennol i ddatblygu'r amcanion ar gyfer y Strategaeth Lesiant newydd sydd i gael ei chyhoeddi ym mis Mai 2023.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend
Public Services Board

**Adroddiad Blynyddol**

**2021-22**

# Canfuom y canlynol

## Llesiant Amgylcheddol

- Mae bod yn nes at natur yn arwain at well llesiant meddyliol a chorfforol.
- Mae ansawdd aer gwael yn effeithio ar iechyd a'r amgylchedd.
- Mae'r perygl oddi wrth lifogydd i bobl a busnesau yn sylweddol.
- Mae afonydd iach yn bwysig i bobl ac yn gwneud natur yn gryfach.
- Mae angen cryfhau bioamrywiaeth.
- Mae angen inni ddefnyddio adnoddau yn well.



## Iechyd a Lles Corfforol

- Rydym yn mwynhau defnyddio ein mannau agored.
- Mae cael gweithgareddau a digwyddiadau fforddiadwy yn bwysig inni.
- Mae arnom eisiau gwella ein hiechyd a'n lles.
- Dengys y data y bydd dementia yn cynyddu dros yr 20 mlynedd nesaf.
- Mae arnom eisiau cymorth i annog ymddygiadau iach.



## Tai a Digartrefedd

- Mae arnom eisiau tai da a diogel heb amharu ar yr amgylchedd.
- Mae cael cartref a theimlo'n ddiogel yn bwysig inni.
- Mae angen cymorth i bobl sy'n ddigartref neu'n wynebu digartrefedd.



## Iechyd Meddwl

- Mae cyfarfod pobl a chymdeithasu yn bwysig i'n lles meddyliol.
- Rydym yn meddwl y gallai gwasanaethau iechyd meddwl weithio'n well.
- Mae tlodi ac iechyd meddwl yn broblem.
- Mae angen i ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl wella.
- Mae ar ein pobl ifanc eisiau bod yn wydn.
- Mae ein hardal leol yn dda i lesiant meddwl.




## Llesiant Diwylliannol



- Rydym yn gwerthfawrogi cymdeithasu am ei fod yn cryfhau perthynas.
- Mae medru ymuno mewn gweithgareddau hamdden ac adloniant yn bwysig inni.
- Y pethau gorau ynghylch byw yn yr ardal yw ein cymunedau a'r amgylchedd naturiol.
- Mae hunaniaeth ac iaith yn bwysig inni.

## Llesiant Economaidd

- Mae cyflog byw yn cynnal unigolion, teuluoedd a'r economi.
- Mae swyddi diogel sy'n talu'n dda yn bwysig.
- Gall gwybodaeth a sgiliau fod o gymorth i'n llesiant economaidd.
- Mae angen mwy o gymorth i helpu pobl i mewn i waith.
- Mae ar bobl leol eisiau cyfleoedd mwy cyfartal.
- Mae trefi a busnesau ffyniannus yn bwysig i'n heconomi leol.



## Llesiant cymunedol

- Mae ein cymunedau'n gryf.
- Mae bron i 450,000 o bobl yn byw ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr a Rhondda Cynon Taf.
- Rydym yn ymfalchïo ym mhwy ydym ac o ble y daethom.
- Mae teimlo'n ddiogel yn ein cymuned yn bwysig i ni.
- Gall unigrwydd effeithio ar unrhyw un.



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend
Public Services Board

**Adroddiad Blynyddol**

# Enghreifftiau o Weithgaredd ar draws BGC Pen-y-bont ar Ogwr

## Cynnwys

- Gweithiodd Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru gyda ni i ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl ar gyfer yr asesiad llesiant.
- Bu ymgyrch y rhuban Gwyn yn ymgysylltu â phobl ledled yr ardal ynghylch trais domestig.
- Mae Cynulliad Hinsawdd Pen-y-bont ar Ogwr yn dod â phobl leol ynghyd sydd eisiau gweld newidiadau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
- Cynhaliwyd sesiynau blasu i wirfoddolwyr er mwyn annog mwy o bobl i ddod yn wirfoddolwyr rheolaidd yn ein mannau gwyrdd.



## Integreiddio

- Casglwyd tystiolaeth ynghyd ar les economaidd i lywio'r asesiad llesiant a strategaeth Economaidd Pen-y-bont ar Ogwr.
- Mae'r BGC yn cefnogi Cynllun Datgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr drwy'r Is-Fwrdd Asedau.
- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi'u datblygu gyda phartneriaid BGC.
- Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf wedi cytuno i greu BGC rhanbarthol newydd o 2023.
- Cynhaliwyd gweithdy Sefydliadau Angori BGC/RPB ar y cyd â BGC Cwm Taf i edrych ar sut y gall sefydliadau newid y ffordd y maent yn gweithio i gefnogi cymunedau a busnesau lleol.



## Atal

- Mae partneriaid BGC wedi bod yn Dysgu am sut i helpu staff i ddelio â digwyddiadau trawmatig mewn ffordd iach a chefnogol.
- Mae partneriaid BGC wedi bod yn dysgu oddi wrth ei gilydd sut i weithio i gefnogi staff â materion iechyd meddwl.
- Bu partneriaid BGC yn gweithio ar ddull cyffredin o rannu gwybodaeth am frechlyn Covid.
- Mae partneriaid yn gweithio ar ddull cyffredin o hyfforddi ynghylch llythrennedd Carbon.
- Mae partneriaid wedi cyfrannu at ymchwil am berthynas rhiant-baban i gynorthwyo rhieni i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w babanod.

## Cydweithredu

- Cefnogodd Grŵp Gweithredu Cymunedol yr asesiad llesiant ar gyfer y BGC ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth hefyd ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn cael dealltwriaeth eang o lesiant gan bobl yn ein cymunedau.
- Mae partneriaid yn cydweithio ar Uwchgynhadledd Cynaladwyedd gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr sydd i gael ei chynnal yng Ngholeg Pencoed ym mis Mehefin 2022, yn arddangos sefydliadau a busnesau sy'n gweithio mewn ffordd fwy cynaliadwy ac yn annog sgyrsiau am yr hyn y gallwn ni i gyd ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- Mae'r BGC yn cefnogi cynnydd tuag at Gyflog Byw Gwirioneddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Mae rhwydweithiau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a dinasyddion wedi helpu i roi Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus newydd yn eu lle er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae gweithgareddau, cyfleoedd ac adnoddau i fwynhau ein mannau naturiol a gwella llesiant wedi cael eu dwyn ynghyd gan bartneriaid BGC ar gyfer tudalennau gwe Natur a llesiant ar **www.bridgend.gov.uk**



## Tymor hir

- Dywedodd pobl ifanc o bob rhan o'r rhanbarth wrthym beth yr oedd arnynt eisiau ei weld yn eu dyfodol a dywedasant wrthym beth sydd angen newid i gyrraedd yno.
- Y dechrau gorau mewn bywyd – bydd rhwydweithiau natur Cwm Taf yn gwella 20 o fannau gwyrdd ar draws y rhanbarth i deuluoedd eu mwynhau.
- Trwy sesiynau blasu a rhwydwaith Gwyrdd Pen-y-bont ar Ogwr mae gwirfoddolwyr yn cynnal ac yn gwella mannau gwyrdd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Mae Cymunedau Arloesedd Economaidd Cylchol wedi helpu partneriaid BGC i weithio tuag at leihau gwastraff.



# Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i greu cymunedau diogel a hyderus ac yn mynd i'r afael â throseddu, anhrefn a phob agwedd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Derbyniwyd **1557** o atgyfeiriadau ymddygiad gwrthgymdeithasol (1286 o ddigwyddiadau). Gostyngiad o **27%** o **2140** yn 2020-21 a **2442** yn 2019-20.

**Ymdriniwyd yn llwyddiannus ag 88% o ddigwyddiadau YGG yng ngham 1 ac ni wnaethant symud ymlaen ymhellach drwy'r broses YGG.**

**6 Contract Ymddygiad Derbyniol**

**3 Hysbysiad Gwarchod Cymunedol**

**1 Gorchymyn Ymddygiad Troseddol**



**13**

o sefydliadau partner yn cydweithio i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.



**15**

o Gamerâu Teledu Cylch Cyfyng symudol YGG i gofnodi ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau problemus hysbys.



**690**

o ymgysylltiadau â phobl ifanc ar y stryd mewn 12 o ardaloedd â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy waith ieuenctid datgysylltiedig Bridgend Youth Matters.

**Roedd y Tîm Ieuenctid Datgysylltiedig** yn cefnogi pobl ifanc mewn digwyddiadau gan gynnwys Gŵyl Elvis.

**Gweithrediad aml-asiantaeth** ar aflonyddu ieuenctid, ymddygiad gwrthgymdeithasol cerbydau, tanau glaswellt a beiciau oddi ar y ffordd.

**Derbyniodd 36,308** ro bobl negeseuon diogelwch cymunedol a anfonwyd drwy e-bost.



# Trais yn erbyn Merched, Cam-Drin Domestig A Thrais Rhywiol

Byddwn yn cydweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos i weithredu'r Strategaeth Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Derbyniwyd **1,767** o atgyfeiriadau Cam-drin Domestig.

Mae **100%** o atgyfeiriadau Cam-drin Domestig yn cael asesiad llawn o anghenion yn gyntaf, cyn mynd ymlaen i waith achos tymor hwy a / neu atgyfeiriadau at wasanaethau perthnasol.

Dosbarthwyd **863** o atgyfeiriadau fel rhai Risg Uchel.

Roedd **262** o atgyfeiriadau yn ddioddefwyr cam-drin domestig fwy nag unwaith.

Roedd **1,007** o blant yn gysylltiedig â'r achosion hyn mewn Trafodaethau Dyddiol.

Aeth **307** o achosion ymlaen i MARAC Llawn.



**Mae Cynghorydd Trais Domestig (IDVA) penodedig bellach ar gael i weithio'n benodol gyda phlant a phobl ifanc yr effeithiwyd arnynt gan drais domestig.**



**Mae Cyswllt Fideo Diogel** hefyd wedi agor yn awr ym mwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr sy'n golygu y gall unrhyw ddioddefwyr sy'n gorfod ymddangos yn y llys i roi tystiolaeth fynychu safle diogel a gefnogir yn llawn gan IDVA Llys, i ffwrdd oddi wrth y llys ac unrhyw beryglon cysylltiedig. Rydym wedi cael adborth ardderchog gan ddioddefwyr sy'n defnyddio'r ystafelloedd hyn sy'n teimlo'n llawer mwy diogel wrth ddefnyddio'r lleoliad.

Yn ddiweddar, fe wnaethom hefyd helpu i greu a chyflwyno'r Ymgyrch **'Snip it in the Bud'** lle buom yn targedu Trinwyr Gwallt a Barbwyr ar draws Cwm Taf Morgannwg i'w helpu i nodi unrhyw arwyddion posibl o rybudd, a chyfeirio pobl at wasanaethau lleol os caiff unrhyw beth ei ddatgelu. Rhyngom fe wnaethom gynnal wyth sesiwn ar draws y rhanbarth i hyrwyddo'r holl wasanaethau a rhoi gwybod i fusnesau am yr hyn sydd ar gael.



# CYDLYNIANT CYMUNEDOL

Yn ein Hasesiad Llesiant, dywedai cyfranogwyr o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) eu bod wedi profi rhagfarn a thriniaeth anghyfartal.

**Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wella cydlyniant cymunedol fel bod pobl mewn cymunedau yn cyd-dynnu'n dda a bod gwahaniaethau yn cael eu parchu a'u goddef.**

## CYNLLUN PRESWYLIO'N SEFYDLOG YR UE

Derbyniodd **18** aelod o staff hyfforddiant ar Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE fel y gallant gefnogi pobl sy'n gwneud ceisiadau i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun.

Cwblhawyd **2,500** o geisiadau llwyddiannus i Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE erbyn Medi 2021 – 100% yn fwy o geisiadau llwyddiannus nag a ddisgwylid yn wreiddiol.

**Tair ymgyrch cyfryngau** cymdeithasol i hyrwyddo Cynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE rhwng Ebrill '21 ac Ebrill '22.

## EITHAFIAETH YR ASGELL DDE

Derbyniodd **142** aelod o staff Hyfforddiant ynghylch Eithafiaeth yr asgell dde a Gwrth-Naratif.

Atebodd **100%** o'r mynychwyr eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i ddeall yr asgell dde eithafol, pwy fyddai'n agored i gael ei radicaleiddio, y broses recriwtio a'r tirwedd o amgylch y Dde Eithafol.

Derbyniodd **44** aelod o staff ac aelodau etholedig hyfforddiant i adnabod delweddau a phropaganda y Dde Eithafol.

Cafodd **100%** ddealltwriaeth ddyfnach o'r pwnc a sut i adrodd am ddelweddau neu bropaganda. Roedd y mynychwyr yn cynnwys staff o wasanaethau Diogelu, Trafnidiaeth Gyhoeddus, Tai, Addysg, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Swyddogion Cyswllt Ysgolion.

## HYRWYDDO CYDLYNIANT CYMUNEDOL

Cafodd **13** aelod o staff hyfforddiant i'w helpu i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i baratoi ar gyfer Wythnos y Ffoaduriaid.

Cymerodd **17** aelod o staff ran mewn hyfforddiant i adnabod a siarad â phobl am droseddau casineb i baratoi ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.
Buom yn ymgysylltu â thros **40** o aelodau'r cyhoedd ar draws campysau'r coleg drwy stondinau ymgysylltu.

Cymerodd **22** aelod o staff ran mewn Hyfforddiant Deall Tuedd Anymwybodol a Chymhwysedd Diwylliannol i'w helpu i fod yn effro i ragfarn anymwybodol wrth gynllunio a darparu ein gwasanaethau.

